

# Cenn@d

GORFFENNAF 13 2022 YN CYNNWYS Y GOLEUAD A SEREN CYMRU RHIF 72

## Aduniad deuddydd – Cynhadledd Undeb Bedyddwyr Cymru



Dair blynedd ers y cynadleddau wyneb-yn-wyneb diwethaf yn 2019, roedd hi'n addas iawn fod deuddydd y gynhadledd eleni yng Nghaerfyrddin yn uno gwahanol rannau o deulu'r Bedyddwyr yng Nghymru. Ddydd Gwener, 24 Mehefin, gwelwyd sefydlu'r Parch. Ddr Densil Morgan yn gyd-Lywydd ar yr adrannau Cymraeg a Saesneg, a hynny am y tro cyntaf erioed. Digwyddiad hanesyddol, felly! Ac yna, ddydd Sadwrn, 25 Mehefin (a gynhaliwyd mewn partneriaeth â SWBA, BMS a Choleg y Bedyddwyr, Caerdydd), daeth dros gant a hanner o bobl o bob oedran ac o bob rhan o'r wlad ynghyd ar gyfer diwrnod cwbl ddwyieithog yn gwrandao ar lais Duw gyda'n gilydd.

'Fyddwn i ddim eisiau perthyn i enwad lle'r oedd disgwyl i bawb droedio llinell benodol heb unrhyw gyfle i anghytuno'n onest ac yn gydwobodol ... ac mae ein Datganiad o Egwyddor yn caniatáu'r rhyddid hwn i ni,' meddai Densil yn ei anerchiad agoriadol fel Llywydd, gan bwysleisio'r cysylltiadau sy'n ein rhwymo gyda'n gilydd tra'n cynnal sofraniaeth pob eglwys leol.

Clywsom hefyd gan ein gweithwyr tramor a'n gweinidogion newydd am rai o'r arwyddion o fywyd newydd sydd wedi bod yn ymddangos yn barod ar ôl y pandemig wrth i bobl roi cynnig ar bethau newydd o fewn cyd-destun sy'n

gyflym seciwlaiddio. Roedd y rhain yn amrywiol iawn – o gynnal diwrnod agored i'r gymuned mewn capel gwledig yn sir Benfro i sesiwn wythnosol yn cynnig cefnogaeth gyda thechnoleg i'r henoed, a hynny hefyd yn fodd o feithrin perthynas rhwng yr eglwys a'r gymuned. Rhwng Sian-Elin, Tim Moody, Misha Pedersen, Neil Warburton, Mervyn Rigg, Jon Brewer a'r chwech o weithwyr tramor – y mwyafrif yn newydd i fywyd yr Undeb ers cyfnod y pandemig – roedd teimlad cryf o obaith wrth edrych i'r dyfodol.

Uchafbwynt diwrnod cyfoethog oedd y sesiynau prynhawn hyn i nifer, ond rhaid crybwyll hefyd gyflwyniadau gwerthfawr ar weledigaeth ddewr y gorfforaeth, gwaith byrddau'r Undeb, a hefyd wrhyddri staff a bwrdd rheoli Glyn Nest dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Teg dweud nid yn unig na roddwyd stop ar waith yr Undeb drwy'r cyfnodau clo, ond hefyd nad arafwyd arno ychwaith!

Yn ystod Oedfa'r Llywydd ar y prynhawn dydd Gwener, hyfrydwch hefyd oedd cael croesawu'r gwsteion eciwmenaidd, sef Mrs Meryl James, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg; Y Parchedig Aled Edwards, Cytûn; y Parchedig Simon Walkling, Llywydd Cyngor Eglwys Rhyddion Cymru, a'r Parchedig Evan Morgan, Llywydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Evan a fu'n gyfrifol am ddwyn cyfarchion ar ran y

gwsteion. Roeddem yn ymfalchïo yn y cysylltiad agos rhwng Evan ac UBC gan fod ei fam, Mrs Rosemary Morgan, aelod ffyddlon yn Eglwys Cwmifor, Llandeilo, yn un o'n chwirydd mwyaf gweithgar a diwyd.

Yn dilyn hyn, cawsom gyfle i goffáu'r gweinidogion a'r Cyn-lywydd a fu farw ers y gynhadledd y llynedd, sef y Parchedig Gwynfryn Rogers, Meurig Thomas, Albert Williams a Mrs Mary Wynne Jones. Diolchwn amdanynt ac am eu gwasanaeth ffyddlon i achos Iesu Grist dros flynyddoedd lawer. Offrymwyd gweddi'r coffad gan y Parchedig Jenny Gough.

Gwelwyd felly arwyddion bychain ond niferus o waith Duw yn ein plith, thema a gafodd ei gwau hefyd drwy ddydd Sadwrn o 'Weddi, Gŵyl a Hwyl'. Roedd rhai o'r sesiynau yn ddwfn a chyfoethog, er enghraifft, clywed llais Duw drwy ein gilydd gyda Helen Dare, hanes yr eglwys gan Densil Morgan a'r eglwys fyd-eang gyda'r BMS.

Yna, cafwyd cyfle prin i'r oedolion ymlonyddu o flaen gair Duw yng nghapel hyfryd y Drindod, dan arweiniad Coleg y Bedyddwyr, Caerdydd. Cymryd un darlenniad o'r Beibl oedd y syniad yma,

[\*\(parhad ar y dudalen nesaf\)\*](#)

**Cymrodoriaeth er Anrhydedd i  
gyn-gaplan yr heddlu a darlledwr**  
Tudalen 3

**Encil y Pentecost, Cristnogaeth 21**  
Tudalen 4

**O'r byd a'r betws  
Cyni a chymuned**  
Tudalen 5

*Aduniad deuddydd –  
Cynhadledd Undeb Bedyddwyr Cymru  
(parhad o dudalen 1)*

ac yna ymwneud â'r darlenniad hwn mewn deg ffordd wahanol – trwy luniau, trwy'r dychymyg, trwy fodolau clai, trwy weddi ac esboniadau Beiblaidd. Yn yr un modd, daeth Lois Adams a Ruth Davies â gweithdai celf i ni a oedd yn ein gwahodd i wrando ar lais Duw trwy fod yn greadigol, gan bwysleisio bod ei air yn siarad â ni, ond bod yn rhaid canolbwyntio yn aml i'w glywed.

Roedd yr oedfa glo ar y prynhawn dydd Sadwrn yn gyfle i fyfyrio ar weithgaredd y dydd ac i wrando (drwy gyfrwng ffilmiau gan y BMS) ar y modd yr oedd rhai o'n brodyr a'n chwiorydd o Peru, Uganda a Cambodia wedi ymateb i'r un darlenniadau ag a ddefnyddiwyd yn y gweithdy o dan arweiniad Rosa Hunt



ac Ed Kaneen. Diddorol oedd nodi bod cymaint o'r sylwadau gan unigolion a oedd yn byw ym mhen arall y byd ac o dan amgylchiadau gwahanol yn debyg i'r rhai a wnaed yn ystod y gweithdy, gan ein hatgoffa mai un Eglwys ydym sy'n addoli ac yn ceisio gwranddo ar yr un Duw!

Gwych felly oedd cael bod yng nghwmni ein gilydd fel cyd-gredinwyr, beth bynnag

ein hoedran, ac o dan haul Mehefin gyda chôn hufen iâ mewn llaw bu'r diwrnod hefyd yn fodd i blant ifanc a hen (!) fwynhau 'pêl-droed i'r deillion, gwneud y macarena, peintio sidan a chreffft yn ogystal â chanu, bwyta hufen iâ ac addoli. Roedd yn ddiwrnod arbennig!

*Bonni Davies*



## Cymrodoriaeth er Anrhydedd i gyn-gaplan yr heddlu a darlledwr

Mewn seremoni raddio a gynhaliwyd yng Nghaerfyrddin ddechrau Gorffennaf, urddwyd y Parchedig Tom Evans yn Gymrawd er Anrhydedd o Brifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant.

Mae Tom Evans yn gyn-aelod o staff Coleg y Drindod, Caerfyrddin; ymunodd â'r Adran Ddiwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol yn 1992 cyn cael ei benodi i swydd Cyfarwyddwr y Ganolfan Dysgu Gydol Oes, ac wedi hynny'n Gyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr hyd ei ymddeoliad yn 2008.

Wrth gyflwyno Tom, meddai Gwilym Dyfri Jones, Profost Campysau Caerfyrddin a Llambod: 'Mae Tom bob amser wedi bod yn gyfathrebwr cryf ac effeithiol. Mae'r gallu hwn i gyfathrebu ag eraill - i ddewis eich geiriau'n ofalus, i ddeall eich cynulleidfa a chysylltu â nhw ar yr amser a'r lle iawn, i allu cydymdeimlo ag eraill ac i rannu barn mewn ffordd glir, gredadwy a dilys - wedi bod wrth galon ei yrfa lwyddiannus. Mae cyfathrebwyr hynod effeithiol hefyd yn wrandawyr da iawn, a dyma, byddwn i'n dadlau, yw cryfder mwyaf Tom. Mae bob amser wedi darparu clust anfeiriadol sy'n gwrandao ar bawb, ac mae'n siarad â phawb mewn iaith y gallant ei deall.'

Wrth dderbyn ei gymrodoriaeth, dywedodd Tom: 'Mae'r brifysgol wedi rhoi'r fraint aruthrol i mi o fod yn gymrawd o'r coleg a'r brifysgol hon. Mae gennyf hoffter aruthrol o'r sefydliad hwn, y brifysgol, ei staff a'i is-ganghellor. Rwyf wedi cael cyfoeth o brofiadau yma, ac yn ddiaw buasai fy mywyd yn dlotach pe na bawn wedi dod i'r Drindod.'

Manteisiodd Tom hefyd ar y cyfle i gynnig rhywfaint o gyngor i'r rhai oedd yn graddio yn y seremoni. Ychwanegodd:

'Rydych chi eisoes wedi clywed bod hwn yn un cam i mewn i'ch dyfodol; mae llawer mwy o gamau a champau dysgu i'w cymryd eto yn eich bywyd. Fe welwch y geiriau "Trawsnewid addysg, trawsnewid bywydau" o gwmpas y campws; heddiw, chi yw canlyniad yr union weledigaeth honno. Ond peidiwch ag ystyried bod eich addysg yn gyflawn. Parhewch i ddysgu ac i drawsnewid eich hunain er budd cymdeithasau'r dyfodol.'

Fel y dywedodd cyn Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys, Mark Collins QPM, sydd hefyd yn gymrawd yn y brifysgol, 'Mae ein swyddogion a'n staff yn gweld rhai digwyddiadau dirdynol a gwirioneddol drasig, a phan fo pobl wir angen rhywun i wrando arnynt ar adegau pan fyddant yn ei chael hi'n anodd iawn, mae Tom bob amser wedi bod yno, ddydd neu nos. Mae wedi dod yn dipyn o ffigwr tadol i Heddlu



Dyfed-Powys ac mae wir yn cyfoethogi lles yr heddlu.'

Ganed Tom yn Llundain a dychwelodd y teulu i sir Aberteifi yn gynnar yn y 1950au. Addysgwyd ef yn ysgolion cynradd Llwyn-y-groes a Betws Bledrws; Ysgol Uwchradd Llanbedr Pont Steffan; Coleg Coffa, Abertawe; y Brifysgol Agored a Phrifysgol Cymru, Caerdydd.

Yn 1968, yn ystod ei flwyddyn olaf yn y coleg diwinyddol, gwasanaethodd Tom fel Myfyriwr Bugeilio yn Eglwys Gynulleidfaol Gymraeg y Tabernacl, Sgiwen, ac ar ei ordeiniad yn 1969 dechreuodd ar ei weinidogaeth yn Eglwys Annibynnol Gymraeg Bethania, Y Tymbl Uchaf, Llanelli. Yn 1975 fe'i penodwyd gan Gymorth Cristnogol, i ddechrau i wasanaethu fel Ysgrifennydd Ardal Canolbarth Cymru a Gwent, ac yn 1987 daeth yn Ysgrifennydd Addysg Cenedlaethol yr elusen yng Nghymru.

Yn 1989 derbyniodd Tom swydd Uwch-gynhyrchydd yn Adran Grefydd BBC Radio Cymru, Llandaf. Yn ystod haf 1992 gwahoddwyd Tom i gymryd swydd Uwch-ddarlithydd Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin, ac arhosodd yn y coleg hyd ei ymddeoliad yn 2008.

Ar ei ymddeoliad, gwasanaethodd Tom ar Gyfarwyddiaeth Dyslecsia Cymru a Gwasanaethau Gwybodaeth a Chymorth Canser. Cyflawnodd y dyletswyddau hynny tan 2012, pan ddaeth yn gaplan gwirfoddol yr heddlu gyda chaplaniaeth newydd Heddlu Dyfed-Powys. Yn 2013, fe'i penodwyd yn Gaplan Arweiniol yr Heddlu Gwirfoddol, gan ddatblygu ac adeiladu tîm caplaniaeth aml-ffydd cryf o fewn yr

heddlu, rôl y bu'n gwasanaethu ynddi tan ei 'ail' ymddeoliad yn 2021. Yn 2017, cydnabuwyd cyfraniad Tom i gaplaniaeth yr heddlu gan Uchel Siryf Dyfed ar y pryd.

Yn ystod ei gyfnod fel caplan, dyfarnwyd Tystysgrif Gwerthfawrogiad y Prif Gwnstabl a Chymeradwyaeth y Prif Gwnstabl ddwywaith i Tom am y gefnogaeth a rannodd gyda swyddogion a staff yn ystod nifer o brif ddigwyddiadau anodd.

Tra oedd yn gwasanaethu fel Caplan Arweiniol Gwirfoddol yr Heddlu, gwasanaethodd Tom ar Gyfarwyddiaeth Caplaniaeth Heddlu'r Deyrnas Unedig a oedd newydd ei ffurfio. Chwaraeodd ran allweddol wrth gael Caplaniaeth Heddlu'r Deyrnas Unedig i agor trafodaethau gyda Phrifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant, i sefydlu rhaglen astudio DPP a fydd yn galluogi caplaniaid yr heddlu ledled y Deyrnas Unedig, yn ogystal â chaplaniaid mewn Gwasanaethau Argyfwng Golau Glas eraill, i ennill tystysgrif ôl-raddedig, diploma ac, yn y pen draw, MA mewn caplaniaeth.

Yn dilyn trafodaethau rhwng Heddlu Dyfed-Powys ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru, gwahoddwyd Tom i ddrafftio cynllun caplaniaeth gwirfoddol ar gyfer Ymddiriedolaeth Ambiwylans Cymru.

Ar ôl 'ymddeol' o gaplaniaeth yr heddlu, hyfforddodd Tom, ac mae bellach yn gwasanaethu fel Gwirfoddolwr Profedigaeth gyda CRUSE. Tom yw cadeirydd presennol Cymdeithas Undeb yr Eglwys Annibynnol Gymraeg, Gorllewin Caerfyrddin.

Mae'n byw yng Nghaerfyrddin ac mae'n briod â Marilyn. Mae ganddynt ddwy ferch, Mererid ac Angharad, a nifer o wyrion.

## Encil y Pentecost, Cristnogaeth 21

'Mae'r gwynt yn chwythu lle y mynno' (neu 'Mae'r gwynt yn chwythu i bob cyfeiriad', Beibl.net) oedd y thema i'n hysgogi yn ein hencil, a chafwyd amser a lle i fyfyrto, gweddïo a gwrando ar 'sŵn yr Ysbryd' a dilyn 'cyfeiriad yr Ysbryd'. Roeddem wedi ymgynnull ddydd Sadwrn, 18 Mehefin, yn eglwys hardd y Santes Fair, Porthaethwy.

Yr oedd arweiniad yr **Archesgob Andrew John** ar ddechrau'r dydd yn ymateb gonest ac arwyddocaol. Cawsom ein hatgoffa mai'r alwad i'r eglwys yw bod yn rhan o waith Duw yn ei fyd – gweld lle mae Duw ar waith ac ymuno ag ef. Ymhlith y cwestiynau yr oedd yr Archesgob wedi eu rhoi i ni i'w rhannu mewn grwpiau bychan – cyn cael cyfnod tawel o weddi – yr oedd y ddau yma: 'Oes ffiniau i ddatblygiad ffydd sydd yn ei thynnu oddi wrth yr Ysgrhythur?' a 'Sut y gwyddom fod daioni'r byd yn dod oddi wrth yr Ysbryd?'

Mae'r **Parchedig Sara Roberts** yn ficer ym Methesda ac yn datblygu patrwm newydd o eglwys sy'n gymdeithas yn hytrach nag enwad neu adeilad, ac yn gymdeithas rydd. Arweiniodd Sara ni ar draws yr A5 i dawelwch byw Coed Cynol i ymdawelu a bod yn un â'r creu ac 'Ysbryd Duw' yn 'ymymud' o'n cwmpas. Lle gwell a lle mwy naturiol i ddarllen Salm 104 a rhannu bara? Er mor hardd yr eglwys, harddach y goedwig.

Ar gyfer y pnawn roedd C21 wedi gwahodd tri gyda doniau arbennig ym myd cerddoriaeth, llenyddiaeth a chelf i rannu dylanwad yr Ysbryd creadigol ar eu gwaith a'u gweledigaeth o fywyd.

Er iddi brofi cyfnod o bellhau oddi wrth y ffydd heb wybod beth na phwy oedd yr Ysbryd na'i brofi, dywedodd y gantores a'r gyfansoddwraig **Manon Llwyd** ei bod bellach ar 'ail siwrnai'. Yn y cyfan a thrwy'r cyfan bu'r Ysbryd sy'n 'chwythu lle y mynno' ar waith, ac mae Manon bellach yn gwybod ei bod mewn lle hapus a bodlon, a bron nad yw'r gân a'r gerddoriaeth wedi bod yn ail gyfle iddi.

Mae llenyddiaeth ddefosiynol yn rhan allweddol o weinidogaeth **Y Parchedig Aled Lewis Evans** erbyn hyn, trwy'r deunydd y mae'n ei baratoi ar gyfer addoliad ei eglwys. Soniodd fod ambell gerdd yn 'encil' ynddi ei hun ac yn fan i dychwelyd yno'n gyson. Nid yw'r encil honno o angenrheidrwydd yn un personol oherwydd mae'r delweddau a'r geiriau yn gyfrwng rhyngweithio gydag eraill sy'n cael y fraint o rannu'r profiad, a chafwyd enghreifftiau o hyn wrth i Aled ddarllen rhai dyfyniadau perthnasol.

Canolbwyntiodd **Cefyn Burgess** ar yr adnod 'Chwi yw goleuni'r byd ... nid oes neb yn golau cannwyll a'i rhoi dan lestr' – gan gyfeirio at yr hyn a ddarganfu yn ystod ei ymweliadau mynych ag India.



Y Parch Sara Roberts yn rhannu bara yn y goedwig

Soniodd am ffydd pobl Bryniau Casia yn cadw'r fflam a gafodd ei chynnau gan genhadon o Gymru yn fyw, a dylanwad parhaol nifer ohonynt. Soniodd hefyd am gydweithio â Mair Jones (Telynores Colwyn), gan ddiolch y bydd ei llais, ei thelyn a'r ysgoloriaeth y mae wedi ei chyflwyno i'r eglwys ym Mrynau Casia yn dod yn rhan o'r golau yn y Bryniau ac yn yr ysbyty. Yn Mair a'i ffydd gwelodd Cefyn 'rywbeth glân yn golau', fel y gwel eraill yr Ysbryd sy'n parhau i chwythu yn y golau a'r lliwiau a welwn yng ngwaith celf Cefyn Burgess.

**Y Parchedig Anna Jane**, Cadeirydd C21, oedd yn arwain yr encil. Ar ddechrau'r dydd rhannwyd ffrwythau'r Ysbryd rhyngom fel cymdeithas oedd yn cyfarfod i fyfyrto, ymdawelu ac ymdeimlo â phresoldeb yr Ysbryd ac yn barod i ddilyn ei arweiniad. Daeth y dydd i ben wrth wrando a chydweiddio gyda chôr eglwysig o Wcraïn yn canu Gweddï'r Arglwydd yn eu hiaith eu hunain. Mae'r gwynt yn chwythu lle y mynno ac o bob cyfeiriad.

Am adroddiad llawnach o gynnwys yr encil, ewch i wefan Cristnogaeth21: <https://cristnogaeth21.cymru/encil-2022/>



Criw'r encil yn Eglwys y Santes Fair, Porthaethwy



# O'r byd a'r betws

## Cyni a chymuned



Byddwn wedi ein brawychu gan heriau economaidd sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd. Gan fod cost tanwydd teithio wedi codi yn agos at £2 y litr mewn manau yn barod, a chostau popeth arall, bron, yn codi yn ei sgil, pa ryfedd fod mwy yn gorfod troi at y banciau bwyd, neu wynebu dewisiadau gwario anodd yr haf hwn. Bydd y cynnydd yng nghost cynhesu tai pan ddaw'r hydref yn faich pellach arnom, a gobeithiwn y bydd y llywodraethau sy'n rheoli drosom yn gweld yn dda i warchod y mwyaf bregus yn ein cymdeithas yn fuan. Prin y gallwn gwyno, o'i gymharu â'r heriau sydd tu hwnt i'n dychymyg yn Wcráin a manau eraill lle mae rhyfeloedd yn digwydd. Mae'n dda clywed bod rhai eglwysi'n llwyddo i ddarparu banciau bwyd ac yn cludo nwyddau at yr anghenus yn eu cymunedau.

Nid oes cyfiawnhad dros dlodi mewn unrhyw gymdeithas. Ond, yn anffodus, dim ond pan fydd ar garreg ein drws ac yn llygad ein cymydog y byddwn yn effro i dlodi a'i effeithiau. Bellach, mae digon o ddeunyddiau ar gael drwy law'r asiantaethau dyngarol sy'n gwneud rhannau o India a'r mwyafrif sylweddol o wledydd Affrica yn 'gymdogion' i ni. Wrth gwrs, mae 'na raddau o dlodi, ac ni allwn gymharu tlodi ym Mhrydain â tlodi yn Eritrea neu Haiti. Dyma'r gwir dlodi, lle mae gwlad gyfan yn bodoli yn hytrach na byw, a'u cypyrddau hwythau'n llythrennol wag. Y wlad ddiweddaraf i fod yn fethdalwr yw Sri Lanka, gyda'r llywodraeth yno'n gofyn am danwydd rhad gan Rwsia.

Mewn atodiad diweddar o'r [Western Mail](#), cafwyd dadansoddiad diddorol o dlodi ardal Glanyrafon (Riverside) yng Nghaerdydd. Dyma'r ardal sydd o fewn golwg i faes rygbi'r Principality, a gostiodd £121 miliwn yn 1991; canolfan hwb y llywodraeth (£100m), canolfan newydd y BBC (£100m) a'r orsaf fysiau hirddisgwyliedig (£89m). Mae'n annheg cymharu prisiau eiddo mewn ardaloedd gwahanol, ond mae'r drafodaeth yn berthnasol i bawb, boed yn Glasgow neu Lundain. I bwrpas y drafodaeth, rhennir Cymru yn 1,909 o ardaloedd, ac mae Glanyrafon yn agos iawn at y gwaelod o safbwynt cartrefedd, cyflogaeth, incwm, ac iechyd. Dywedir bod 55% o holl blant ardal Glanyrafon yng nghategori tlodi – y ganran uchaf yng Nghymru.



Llun: Nick Smith (CC BY-SA 2.0)

Glanyrafon, Caerdydd

Nod yr erthygl yw dwyn sylw at dlodi, ond mae'r ymchwilyr am nodi'r ffaith fod llawer o dystiolaeth fod y gymdogaeth yng Nglanyrafon yn gweithio i gynnal ei gilydd, ym mhob modd. Bydd y plant yn cydchwarae, beth bynnag eu cefndir ethnig, ac mae gan y cymdogion ddiddordeb yn ei gilydd. Dywedir bod ardaloedd cyfoethocach eu hincwm mor brysur â'u hamserlen fel nad oes 'cymdeithas' real yno. Cyfoeth sy'n gyrru'r bywydau hyn, ac mae'r syniad o 'berthyn' yn wan. Nodir bod gweiniaid cymdeithas dlawd yn ddi-lais, a hwythau'n teimlo'u bod yn ddiwbys o ganlyniad. Bydd y ddadl ddeallusol yn ymwrthod â haenau dosbarth cymdeithasol, ond yn ddall i realiti angen y tlodion yn ein cymunedau. Dyma lle bydd y rhai sy'n gwithio ac yn gwerthu cyffuriau yn gweld eu cyfle. Cyfrwng ymgolli oddi wrth realiti tlodi fydd y gwerthwyr cyffuriau yn ei gynnig, a herio tlodi a chynnig cymdeithas amgenach yw braint eglwysi. Dyma'r math o drafodaeth y dylai gwleidyddion cenedlaethol a chymunedol fynd i'r afael â hi, ac un o heriau ein dydd yw darganfod beth yw ein diwinyddiaeth Gristnogol wrth ymdopi â gwendid ein cymdeithas.

Denzil John

## Cyrsiau Haf Coleg y Bala

Yn y poster, gwelir manylion y cyrsiau haf i blant a phobl ifanc yng nghanolfan Gristnogol Coleg y Bala. Os gwyddoch am rai fyddai'n hoffi bod yno ynghanol yr hwyl a'r dysgu yr haf hwn, yna rhannwch y poster ac anogwch nhw i fynd yno.

Bydd llawer o eglwysi o bob enwad yn trefnu i gyfrannu tuag at gostau'r plant a'r bobl ifanc o'u plith ar y cyrsiau hyn. Beth am i'ch eglwys chithau ystyried bendithio ein teuluoedd a'n plant yn y ffordd yma?

Mae rhagor o fanylion am weithgareddau'r Ganolfan ar gael ar y ddolen hon: [Coleg y Bala - Rhaglen y Coleg](#) neu gallwch gysylltu efo'r Ganolfan i archebu lle (manylion ar y poster).

**Coleg y Bala**

# CYRSIAU HAF 2022

**CWRS IEUENCTID**  
23–27 Gorffennaf  
ieuenctid 11-14 oed

**ANHREFN**  
A · W · S · T  
8–11 Awst  
plant 8-11 oed

**SOULED OUT 22**  
13–18 Awst  
15+ oed  
cwrs dwyieithog

I archebu eich lle neu am fwy o fanylion:  
[colegybala@ebcpcw.cymru](mailto:colegybala@ebcpcw.cymru) 01678 520565

# O'r Beibl: 8

Cyfes ar gyfer astudiaeth  
bersonol neu fel grŵp


## Y Gwynfydau (1)

Yn ddiweddar, deuthum o hyd i flog ar y we sy'n rhestru rhai o areithiau enwocaf a mwyaf dylanwadol hanes y ddynoliaeth. Roedd yn ddidorol gweld pa areithiau gafodd eu cynnwys yn y rhestr. Yn eu plith yr oedd 'I have a dream' gan Martin Luther King, 'We shall fight on the beaches' gan Winston Churchill, yn ogystal ag araith John F. Kennedy pan gafodd ei urddo'n Arlywydd yr Unol Daleithiau. Heb os, pe bai Cymro wedi ysgrifennu'r blog hwn, byddai wedi ychwanegu 'Tynged yr Iaith' gan Saunders Lewis at y rhestr! Er hynny, beth wnaeth fy nharo fwyaf am y rhestr, oedd faint o sylw gafodd un araith gan y blogiwr: y Bregeth ar y Mynydd gan Iesu Grist. Yn wir, dywedodd yr awdur: 'No speech has been more pondered, more influential, or more quoted.'

Mewn gwirionedd, ni ellir gosod pregeth Iesu ar y mynydd ochr yn ochr ag areithiau eraill er mwyn eu cymharu â'i gilydd. Wedi'r cyfan, nid jyst geiriau dyn cyffredin yw'r rhain, ond geiriau Mab Duw. Ond does yna ddim dwywaith amdani, mae'r Bregeth ar y Mynydd wedi cael dylanwad enfawr ar bobl. Yn ddi-os, bu geiriau fel 'Gwyn eu byd y tangnefeddwyr, oherwydd cânt hwy eu galw'n blant i Dduw' yn rhai arbennig o ddylanwadol. Mae'r rhan fwyaf o Gymry Cymraeg – hyd yn oed y rhai hynny nad ydynt yn Gristnogion – wedi clywed y geiriau hyn o'r blaen.

Yn ystod yr wythnosau nesaf, byddwn yn astudio dechrau'r Bregeth ar y Mynydd gyda'n gilydd (Mathew 5:3–10). 'Y Gwynfydau' yw'r enw cyffredin a roddir ar eiriau cyntaf y Bregeth ar y Mynydd. Ond, cyn i ni astudio'r Gwynfydau, mae'n bwysig ein bod yn cael ychydig o gyflwyniad i'r bregeth fawreddog hon.

Y peth cyntaf a'r peth pwysicaf i'w nodi am y bregeth yw ei *chynulleidf*a. Hynny yw, pwy yw'r bobl y mae Iesu yn adrodd y geiriau hyn wrthynt? Cyn i Iesu ddechrau'r



Bregeth ar y Mynydd, mae Efengyl Mathew yn dweud y geiriau canlynol: 'Pan welodd Iesu y tyrfaoedd, aeth i fyny'r mynydd, ac wedi iddo eistedd i lawr daeth ei ddisgyblion ato. Dechreuodd eu hannerch a'u dysgu fel hyn' (Mathew 5:1,2).

Er bod yna dyrfaoedd o bobl yn dilyn Iesu, nid gyda'r tyrfaoedd y mae Iesu yn siarad yn y Bregeth ar y Mynydd. Yn hytrach, mae'n siarad yn uniongyrchol â'i ddisgyblion ei hun. Nhw yw'r rhai sydd wrth ei draed wrth iddo bregethu'r bregeth hon. Nid pregeth i'r rhai nad oedd yn ei ddilyn oedd y bregeth hon, ond pregeth i'r rhai oedd yn ei ddilyn yn barod ac oedd eisoes yn ddisgyblion iddo.

Mae'n bwysig deall arwyddocâd hyn. Oherwydd, ambell dro, mae pobl yn camddeall pwrpas y Bregeth ar y Mynydd gan feddwl fod Iesu – drwy adrodd y geiriau hyn – yn esbonio sut mae *dod* yn ddisgyblion iddo. Weithiau, mae pobl yn darllen y Gwynfydau gan feddwl mai rhyw 'brawf dinasyddiaeth' ydynt i weld pwy sy'n ddisgyblion i Iesu.

Ond, na. Nid telerau ynglŷn â sut mae *dod* yn Gristnogion yw'r Gwynfydau, ond esboniad sut mae byw fel disgyblion i Iesu *ar ôl* dod yn Gristnogion. Fel y gwelwn yn glir yn ystod yr wythnosau nesaf, mae pob Cristion i fod yn 'dlodion yn yr ysbryd', yn 'galaru', yn 'newynu ac yn sychedu am gyfiawnder', yn 'bur eu calon', yn cael eu 'herlid o achos cyfiawnder'. Nid pregeth i'r byd yn gyffredinol yw hon, ond pregeth i Gristnogion yn benodol.

Felly, os mai pregeth ar gyfer *disgyblion* Iesu yw'r Bregeth ar y Mynydd, sut ydym ni'n *dod* yn ddisgybl iddo fe yn y lle cyntaf? Mae hwn yn gwestiwn pwysig a dyma'r

cwestiwn y dylem ei ystyried cyn dechrau astudio'r bregeth. Mae'r ateb i'r cwestiwn hwn yn cael ei roi gan Iesu rai adnodau cyn y Bregeth ar y Mynydd. Dyma'r geiriau cyntaf i Iesu eu hadrodd wrth iddo ddechrau ar ei weinidogaeth: 'Edifarhewch, oherwydd y mae teyrnas nefoedd wedi dod yn agos' (Mathew 4:17).

Mae Iesu'n esbonio mai'r ffordd i ddod yn rhan o'i deyrnas, y ffordd i ddod yn ddisgybl iddo, y ffordd i ddod yn Gristion yw – yn syml – drwy '*edifarhau*'. Nid yw '*edifarhau*' yn air cyfarwydd yn ein Cymraeg ni heddiw. Yn y Roeg wreiddiol, mae'r gair yn llythrennol yn golygu 'newid meddwl' neu 'newid cyfeiriad'. Yn ein hiaith gyfoes, y ffordd orau i esbonio beth mae edifarhau yn ei olygu yw gwneud tro pedol (*u-turn*). Mae fel petai ein bod ni'n mynd ar hyd y draffordd i'r cyfeiriad anghywir ac yna ein bod yn gwneud tro pedol ac yn mynd i'r cyfeiriad cywir. Dyna beth yw ystyr edifarhau yn y Beibl. Mae Iesu'n pwysleisio mai'r ffordd i ddod yn Gristion yw drwy edifarhau.

Oherwydd, yn naturiol, rydym i gyd yn mynd i'r cyfeiriad anghywir. Er mai Iesu yw'r Brenin, yn hytrach na byw ein bywydau iddo, mae pawb ohonom wedi anwybyddu Duw, wedi ei wthio i ymylon ein bywydau gan feddwl ein bod ni'n gallu byw hebddo a heb ei adnabod. Dyma'r cyfeiriad yr ydym i gyd yn ei wynebu yn naturiol. Ond mae Iesu'n dweud wrthym am edifarhau a newid cyfeiriad, i wneud tro pedol. Yn hytrach na pharhau i symud i ffordd oddi wrtho, mae eisiau i ni ddod ato. Mae eisiau i ni gredu ynddo: ei fod wedi marw dros ein pechodau ar y groes a'i fod wedi atgyfodi'n fyw ar y trydydd dydd.

Dyma'r ffordd i ddod yn ddisgybl i Iesu: drwy edifarhau a chredu ynddo. Dim ond ar ôl i ni wneud hynny y mae geiriau'r Bregeth ar y Mynydd yn uniongyrchol berthnasol i ni.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt:

- Beth sy'n dod i'n meddwl gyntaf pan glywn am y Bregeth ar y Mynydd?
- Ym mha ffordd y gall pobl gamddeall y bregeth hon?
- Beth mae'n ei olygu i 'edifarhau'? (Mathew 4:17)

Gwilym Tudur

S4C

**Dechrau Canu, Dechrau Canmol**  
Sul, 17 Gorffennaf, am 8yh

Ymunwch â Huw Edwards yn fyw o Foliant y Maes yn y Sioe Frenhinol, Llanelwedd

BBC radio  
cymru

**Caniadaeth y Cysegr**  
Sul, 17 Gorffennaf, am 7:30yb a 4.30yp

Gosodiad newydd gan Gareth Glyn ar gyfer gwasanaeth y Cymun Bendigaid yng Nghadeirlan Bangor

**Oedfa Radio Cymru**  
Sul, 17 Gorffennaf, am 12:00yp  
Oedfa sgwrs gyda Beryl Vaughan, Llanerfyl



Eglwys Bresbyteraidd Cymru

## GOFALAETH CYLCH LLANDEILO A'R ARFORDIR

### SWYDD CYNORTHWYDD GWEINIDOGAETHOL

Gwahodddwn rai â diddordeb mewn hybu gwaith Cristnogol ac eglwysig i ymddiddori yn y swydd Cynorthwydd Gweinidogaethol i wasanaethu yng Ngofalaeth Cylch Llandeilo a'r Arfordir.

**Oriau:** 35 awr yr wythnos

**Cytundeb:** 3 blynedd gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf

**Cyflog:** Graddfa 25-30 (£25,913-£28,049) a chyfle i ymuno â Phensiwn EBC

Mae'r swydd hon yn amodol ar ddatgeliad DBS manwl a dau eirida boddhaol.

Mae gofyniad galwedigaethol Cristnogol ac iaith Gymraeg yn berthnasol ar gyfer y swydd hon.

Dyddiad cau: 16:00, dydd Gwener, 12 Awst 2022

Rhagwelir y bydd y cyfweiliadau'n cael eu cynnal ddydd Gwener, 9 Medi 2022

Am fwy o wybodaeth, ac am ffurflen gais, cysylltwch ag:

e-bost - [hedd.morgan@ebcpw.cymru](mailto:hedd.morgan@ebcpw.cymru)

ffôn - 02920 627 465

gan nodi: 'Swydd Cynorthwydd Gweinidogaethol, Llandeilo, Myrddin'



Eglwys Bresbyteraidd Cymru

## HENADURIAETH MYRDDIN

### GOFALAETH Y GWENDRAETH

### SWYDD CYNORTHWYDD GWEINIDOGAETHOL

Mae Henaduriaeth Myrddin, EBC, yn edrych i sicrhau person i weithio fel Cynorthwydd Gweinidogaethol o fewn Gofalaeth y Gwendraeth, Sir Gaerfyrddin.

**Oriau:** 35 awr yr wythnos

**Cytundeb:** 3 blynedd, gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf

**Cyflog:** Graddfa 25-30 Graddfa EBC (£25,913-£28,049) ynghyd â lwfans tŷ, lwfans car, costau, a chyfle i ymuno â Chynllun Pensiwn EBC

Mae'r swydd yn seiliedig ar ddatgeliad DBS boddhaol a dau eirida (dylai un ohonynt fod yn gyflogwr blaenorol).

Mae gan y swydd hon ofyniad galwedigaethol i ddeilydd y swydd fod yn Gristion ymroddedig ac yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Dyddiad cau: 16:00, dydd Gwener, 12 Awst 2022

Rhagwelir y bydd y cyfweiliadau'n cael eu cynnal ddydd Gwener, 9 Medi 2022

Am fwy o wybodaeth, ac am ffurflen gais, cysylltwch ag:

e-bost - [hedd.morgan@ebcpw.cymru](mailto:hedd.morgan@ebcpw.cymru)

ffôn - 02920 627 465

gan nodi: 'Swydd Cynorthwydd, Gwendraeth, Myrddin'

## Gwerthfawrogi Cyfraniad

Cyflwyniad i Mr R. Allan Fewster yn ystod Cymanfa Ganu Undebol, Llangennech, 12 Mehefin 2022

Yn ystod y Gymanfa Ganu Undebol a gynhaliwyd yn Llangennech ym mis Mehefin, cyflwynwyd siec i Mr R. Allan Fewster i gydnabod ei wasanaeth dros 51 o flynyddoedd i eglwysi'r cylch.

Fe sefydlwyd Allan yn organydd ac arweinydd y gân yn Salem, Eglwys y Bedyddwyr, Llangennech, yn 1971 a bu'n gyfrifol am drefnu cymanfaoedd yr eglwys tan 1990. Ar ôl hynny, penderfynodd eglwysi'r pentref uno'u cymanfaoedd, gydag Allan yn gyfrifol, gyda phwyllgor lleol, am drefnu'r rhaglen yn flynyddol bob mis Mehefin ac am baratoi'r côr. Ef hefyd oedd prif organydd y gymanfa dros y blynyddoedd.

Yn ystod y cyfnod hyn, fe ddaeth Allan yn adnabyddus iawn ei hunan fel arweinydd cymanfaoedd canu ledled Cymru, de a gogledd, a hefyd fel organydd dawnus iawn. Fe'i hetholwyd yn gadeirydd pwyllgor cerdd yr Eisteddfod Genedlaethol, a bu yn y swydd hon am 12 mlynedd; hefyd bu'n organydd i Gymanfa'r Eisteddfod ar wyth achlysur.

Mae cyfraniad Allan i ganiadaeth y cysegr ac i gymanfaoedd canu drwy Gymru gyfan wedi bod yn amhrisiadwy, ac mae wedi cael ei gydnabod fel cerddor o'r radd flaenaf. Mae'n dal i weithredu fel diacon yn Eglwys Salem a hefyd fel organydd, gyda chymorth eraill. Mae'n cynorthwyo eglwysi eraill y pentref fel organydd mewn oedfaon undebol ac ar achlysuron amrywiol eraill, yn ogystal ag eglwysi eraill yng nghylch Llanelli.

Mae ein dyled i Allan yn enfawr ac mae wedi sicrhau parhad y traddodiad canu cynulleidfaol yn Llangennech a chylch Llanelli am flynyddoedd maith. Felly, i



(O'r chwith i'r dde) Trystan Lewis (Arweinydd y Gymanfa), Bill Griffiths (Cadeirydd y Pwyllgor), Allan Fewster a Glyn Williams (Aelod o'r Pwyllgor)

ddangos ein gwerthfawrogiad o'i holl wasanaeth, cyflwynwyd siec iddo ar ran Pwyllgor y Gymanfa a'i holl ffrindiau gan Bill Griffiths, Cadeirydd y Pwyllgor, yn ystod y gymanfa eleni. Mynegodd Allan ei ddiolch am y cyflwyniad a'r rhodd gan annog pawb i ddal ati a sicrhau parhad y gymanfa ganu fel sefydliad pwysig iawn yn ein hetifeddiaeth grefyddol a cherddorol yng Nghymru.

*Bill Griffiths  
Llangennech*

# Dyma gyfarfod hyfryd iawn

*Byw a bod a byw ...*

## Darllen

Salm 15 neu gellir canu cyfieithiad y *Salmau Cân Newydd* <https://www.bible.com/cy/bible/1364/PSA.15.SCN>

## Gwedd

Arglwydd sanctaidd, pan ystyriwn rinweddau'r rhai sy'n gymwys i aros yn dy bresenoldeb cyfaddefwn ar un waith nad ydym yn deilwng o'r fath fraint. Maddau i ni, drwy Iesu Grist, ein haml bechodau i'w erbyn. Dysga ni beth yw caru'r gwirionedd, gan dy barchu a'w anrhydeddu di yn ein holl ffyrdd. Drwy dy Ysbryd Glân, bywha ni, Arglwydd. Amen.

## Emyn 340: 'O llefara, addfwyn Iesu'

### Cyflwyniad

Dychmygwch fod ar daith i ymweld ag Anialwch y Sahara. Gyda'r hwyr, rydych chi'n cyrraedd pentref tebyg i bentref Asward yng ngorllewin Morocco. Mae'r ffynnon ddŵr agosaf tua phum milltir i ffwrdd a'r farchnad agosaf 16 milltir i ffwrdd.

Wrth iddi wawrio cewch olwg ar ymyl yr anialwch.

Ac fel teithiwr modern sydd ar frys i symud ymlaen i roi tic yn y blwch ar gyfer y lle nesaf yr ydych yn bwriadu ymweld ag ef, nid ydych am oedi'n ormodol. Fel pawb arall sydd ar y daith dywys, rydych chi am fanteisio ar y cyfle i fynd ar daith ar gefn camel (er nad oedd hwnnw ar restr y '100 Peth i'w Gwneud cyn Marw!'). Felly, dyma fentro ar gefn y creadur digroeso sy'n tuchan wrth iddo godi ar ei draed.

Bydd y daith o gwmpas y twyni tywod yn para rhyw ddwyawr, cyn iddi fynd yn rhy boeth, ac yn cynnig 'profiad' o fyw yn y Sahara i chi. A dyna 'tic' arall yn y llyfr. Yfory, byddwch ar y bws â'i awyru perffaith yn medru dweud eich bod wedi ymweld â'r Sahara.

Ond, mewn gwirionedd, cyrion diffeithwch a welsoch. Ac, mewn gwirionedd, wedi'r ymweliad dydych chi fawr callach am fywyd go iawn trigolion y diffeithwch am nad oes gennych chi'n dal ddim syniad o aruthredd yr anialwch, ei wres yn ei anterth, na harddwch ofnadwy ton ar ôl ton o dywod y ffwrnais boeth.

I lawer ohonom, hyd yn oed wedi i ni ganu emynau dyrchafol neu fod yn ffyddlon ac yn

gyson mewn oedfa, profiad yr 'ymwelydd' sydd gennym ninnau hefyd. Rydyn ni wedi clywed sôn am Dduw, am Iesu, am Ysbryd Glân. Ond, mewn gwirionedd, heblaw am ryw ymdeimlad fod y greadigaeth yn fawr a'n bod ninnau'n fach, fod yna ddirgelwch na allwn ei groesi y tu hwnt i orwelion ein profiad o Dduw, does gennym ni ddim syniad am fawredd yr Hwn yr ydym yn ymwneud ag o.

## Darllen: Colosiaid 1:15-18

Yn ein darlleniad cyntaf heddiw gwelwn fod yr Apostol Paul yn gweddio dros bobl nad ydoedd yn eu hadnabod. Gweddiodd y caent eu 'llenwi, trwy bob doethineb a deall ysbrydol, ag amgyffrediad o ewyllys Duw, er mwyn ichwi fyw yn deilwng o'r Arglwydd a rhyngu ei fodd yn gyfan gwbl, gan ddwyn ffrwyth mewn gweithredoedd da o bob math, a chynyddu yn eich adnabyddiaeth o Dduw.' (Colosiaid 1:9-10)

Golygai hynny eu bod yn cael golwg ar fawredd yr Arglwydd Iesu Grist ei hun: Iesu'r gwareddwr a'r prynwr; Iesu, yr hwn a ddygodd ddelw Duw, stamp sylwedd Duw, i'n plith.

Prin y medrai'r rhai oedd yn byw oddi mewn i'r ymerodraeth Rufeinig ddychmygu sut un oedd Cesar. Ond, ar yr arian bath a berthynai i'r wladwriaeth, roedd 'delw' yr ymerawdwr i'w gweld, yn ddarlun o'i urddas ac yn arwydd fod yr arian yn ddilys.

Prin y medrwn ninnau ddychmygu sut un yw Duw. Ond mae Iesu'n 'ddelw' o'r realiti anweledig o'r Arglwydd brenhinol hwn. Iesu yw etifedd pob un dim (cyntaf-anedig yr holl greadigaeth), ac ef yw'r crëwr sy'n rhoi bod i bob dim ac sy'n cynnal pob un dim. Ac er ei fwyn ef y mae pob un dim yn bodoli. Ynddo Ef y mae Duw yn preswylion gorfforol, ac ef yw pen yr Eglwys.

## Gwedd

Arglwydd Iesu Grist, maddau i ni fod ein dealltwriaeth ohonot mor fas ac arwynebol. Drwy dy Ysbryd, caniatâ i ninnau gael cipolwg ar dy 'wedd, Dywysog bywyd', yn yr hwn y 'cydlewyrcha, / dwyfol fawredd a mwyneidd-dra'.

## Emyn 356: 'O na chawn i olwg hyfryd'

### Darllen: Luc 10:38-42

Hanes syml yw hwn am flaenoriaethau. Gwelsom yn yr adnodau oedd gennym

yr wythnos diwethaf ein bod wedi ein galw: 'Dos, a gwna dithau yr un modd ...' i weithredu'n ddiamed drugaredd tebyg i Dduw ei hun!

Fel allem, fel pobl brysur, dybio bod Iesu'n cymeradwyo prysurdeb personoliaethau diorffwys. Mor rhwydd yw bod yn brysur a bod yn drafferthus.

Er i Martha duchan wrth Iesu nad oedd ei chwaer am ei chynorthwyo, mae'n bur debyg ei bod, ar y dechrau o leiaf, wedi croesawu'r prysurdeb. Ond aeth y dasg o ddarparu croeso i Iesu a'i ddisgyblion, y tro hwn, y tu hwnt i'w chyrraethiad. Roedd ei 'phryderu a'i thrafferthu am lawer o bethau' y tro hwn hefyd wedi ei hatal rhag bod yng nghwmni ei chwaer yng nghymdeithas Iesu gyda'i ddisgyblion.

Yr 'un peth angenrheidiol' i bob un ohonom yw cael bod yng nghwmni Iesu – gan ei fod yn waredwr, yn brynwr, yn grëwr ac yn gynhaliwr y cyfanfyd, a gan fod holl gyflawnder y duwdod yn preswylion ynddo ef yn gorfforol. Mewn gwirionedd, pa rodd allai fod yn fwy na hyn, na chael bod yn ei gwmni, ac yng nghwmni pobl eraill sydd am fod yn ei gwmni? Cael rhannu yn ei ddysgeidiaeth, cael clywed ei lais, cael ein cyfareddu gan yr hwn sy'n llenwi tragwyddoldeb maith ei hun.

Dewisodd Mair oedi, er beirniadaeth ei chwaer, yng nghwmpeini Iesu. Dyma oedd, a dyma yw, 'y gyfran orau' bob amser. A dyma'r dewis a gynigir i ni yn ddyddiol.

Wrth i'n capeli edwino, daw'r her i fod yn 'brysur', i fod yn weithgar, i wneud 'rhywbeth', bron â bod, yn gyfiawnhad dros ein bodolaeth. 'Mae cymaint o angen yn y byd,' meddwn. 'Sut allwn ni beidio ag ymateb i'r alwad, "Dos, a gwna dithau ..."?'

Ond ym mhrysurdeb ein hawydd 'i wneud', collasom ryfeddod y berthynas waelodol sy'n creu, yn cynnal ac yn cymell tystiolaeth eglwys Iesu Grist. Y profiad hwnnw o fod yn ei gwmni, yng nghymdeithas ei saint, yn clywed, yn gwrando ac yn trysori'r Arglwydd yn ein calonnau, ac yn gweithredu ei air, yw harddwch ei eglwys ar ei sylmaf a'i mwyaf arhosol.

## Emyn 189: 'O am gael ffydd'

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteriaidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteriaidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

[watcyn@cennad.cymru](mailto:watcyn@cennad.cymru) | [huw@cennad.cymru](mailto:huw@cennad.cymru) | [aled@ysgolsul.com](mailto:aled@ysgolsul.com)

[www.cennad.cymru](http://www.cennad.cymru) | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [@CennadCymru](https://www.instagram.com/CennadCymru)